

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

- 1 Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid
Questions on Local Government to the Finance Minister
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Questions to the Minister for Education and Lifelong Learning and Skills

Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid Questions on Local Government to the Finance Minister

Swyddogaethau Cynghorau Cymuned The Roles of Community Councils

Q11 Lisa Francis: Will the Minister make a statement on the roles of community councils in Mid and West Wales? OAQ0808(LGP)

C11 Lisa Francis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am swyddogaethau cynghorau cymuned yn y Canolbarth a'r Gorllewin? OAQ0808(LGP)

The Finance Minister (Sue Essex): Community councils throughout Wales play an important role in the creation of strong and active communities. They have legal powers to perform a wide range of activities that improve the quality of life for local people. They also play a vital role in representing the interests of their communities.

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Mae gan gynghorau cymuned ar hyd a lled Cymru ran bwysig yn y gwaith o greu cymunedau cryf a gweithgar. Mae ganddynt bwerau cyfreithiol i gyflawni ystod eang o weithgareddau i wella ansawdd bywyd pobl leol. Mae ganddynt hefyd ran hanfodol yn y gwaith o gynrychioli buddiannau eu cymunedau.

Gwasanaethau Lleol Local Services

Q12 William Graham: What measures has the Minister taken since 2003 to monitor improvement in the delivery of local services in South Wales East? OAQ0823(LGP)

C12 William Graham: Pa gamau mae'r Gweinidog wedi eu cymryd er 2003 i fonitro'r gwelliant mewn gwasanaethau lleol yn Nwyrain De Cymru? OAQ0823(LGP)

Sue Essex: The Welsh Assembly Government, working with our partner organisations, set performance indicators for the majority of services delivered locally. These monitor trends in performance and

Sue Essex: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill, yn pennu dangosyddion perfformiad ar gyfer y rhan fwyaf o'r gwasanaethau a gaiff eu darparu'n lleol.

delivery against targets in South Wales East, as in the rest of Wales.

Mae'r rhain yn monitro tueddiadau o ran perfformiad a darpariaeth yn erbyn targedau yn Nwyrain De Cymru, a gweddill Cymru.

Effaith y Dreth Gyngor ar Aelwydydd Pensiynwyr The Impact of Council Tax on Pensioner Households

C13 Ieuan Wyn Jones: Pa sylwadau mae'r Gweinidog wedi'u derbyn ynghylch effaith y dreth gyngor ar aelwydydd pensiynwyr? OAQ0831(LGP)

Q13 Ieuan Wyn Jones: What representations has the Minister received on the impact of council tax on pensioner households? OAQ0831(LGP)

Sue Essex: I have received some correspondence on this matter and have met the National Pensioners Forum Wales. Many pensioners are entitled to council tax benefit to help with their bills but do not claim. We have allocated £1.5 million this year with the aim of increasing take-up of this entitlement, particularly among pensioners.

Sue Essex: Yr wyf wedi derbyn gohebiaeth ynghylch y mater hwn ac wedi cyfarfod â Fforwm Pensiynwyr Cymru. Mae gan lawer o bensiynwyr hawl i gael budd-dal y dreth gyngor i'w helpu â'u biliau, ond nid ydynt yn ei hawlio. Yr ydym wedi dyrannu £1.5 miliwn eleni er mwyn annog rhagor o bobl i hawlio'r budd-dal hwn, yn enwedig ymhlith pensiynwyr.

Gwasanaethau Cyhoeddus Public Services

Q14 David Melding: Will the Minister make a statement on the provision of public services by local authorities in South Wales Central? OAQ0793(LGP)

C14 David Melding: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan awdurdodau lleol yng Nghanol De Cymru? OAQ0793(LGP)

Sue Essex: The overall trend is of continued, if uneven, improvement in service standards. There are strengths and weaknesses within all service areas and all authorities. The Welsh Assembly Government and our national partners will continue to provide support to address serious weaknesses in South Wales Central, as in the rest of Wales.

Sue Essex: Yn gyffredinol, mae safonau gwasanaethau'n gwella'n barhaus, er bod y gwelliannau hynny'n anwastad. Mae cryfderau a gwendidau ym mhob maes gwasanaeth ac ym mhob awdurdod. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru a'n partneriaid cenedlaethol yn parhau i roi cymorth i fynd i'r afael â gwendidau difrifol yng Nghanol De Cymru, ac yng ngweddill Cymru.

Ariannu Awdurdodau Heddlu Funding Police Authorities

C15 Rhodri Glyn Thomas: Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cynnal yn ddiweddar gydag awdurdodau'r heddluoedd ynghylch eu hariannu yn y dyfodol? OAQ0817(LGP)

Q15 Rhodri Glyn Thomas: What recent discussions has the Minister held with police authorities regarding future funding? OAQ0817(LGP)

Sue Essex: I have not had any recent discussions with police authorities regarding future funding. The Minister for Social Justice and Regeneration meets the chairs of Welsh police authorities on a regular basis.

Sue Essex: Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau'n ddiweddar ag awdurdodau'r heddlu yng nghyswllt eu hariannu yn y dyfodol. Bydd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn cyfarfod yn

These meetings cover a wide range of issues including future funding.

rheolaidd ag awdurdodau'r heddlu. Bydd y cyfarfodydd hyn yn ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion gan gynnwys ariannu.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Questions to the Minister for Education and Lifelong Learning and Skills

Anghenion Addysg Arbennig Special Educational Needs

Q11 John Griffiths: Will the Minister make a statement on progress in improving special educational needs provision in Wales? OAQ0913(ELL)

C11 John Griffiths: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd o ran gwella'r ddarpariaeth anghenion addysg arbennig yng Nghymru? OAQ0913(ELL)

The Minister for Education, Life Long Learning and Skills (Jane Davidson): The SEN code of practice for Wales 2002 outlines the statutory framework and explains the procedures to be adopted in order to improve provision and support for pupils with special educational needs. We are currently developing an inclusion policy and performance framework for Wales that supports all children and young people, including those with SEN.

Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson): Mae cod ymarfer AAA Cymru 2002 yn amlinellu'r fframwaith statudol ac yn egluro'r gweithdrefnau i'w dilyn i wella'r ddarpariaeth a'r cymorth i ddisgyblion ag anghenion addysg arbennig. Yr ydym wrthi ar hyn o bryd yn datblygu polisi cynhwysiant a fframwaith perfformio ar gyfer Cymru ac yn helpu bob plentyn a pherson ifanc, gan gynnwys y rhai ag AAA.

*Tynnwyd cwestiwn 12, OAQ0930(ELL), yn ôl.
Question 12, OAQ0930(ELL), was withdrawn.*

Gwella Lefelau Sgiliau Sylfaenol Improving Basic Skill Levels

Q13 Sandy Mewies: Will the Minister make a statement on action taken to improve basic skill levels in Wales? OAQ0900(ELL)

C13 Sandy Mewies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau a gymerwyd i wella lefelau sgiliau sylfaenol yng Nghymru? OAQ0900(ELL)

Jane Davidson: Our strategy for basic literacy and numeracy skills, 'Words Talk—Numbers Count', sets out a comprehensive, all-age approach to tackling this serious issue. It is already having a significant impact.

Jane Davidson: Mae'n strategaeth ar gyfer sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol sef 'Geiriau'n Galw—Rhifau'n Cyfri', yn amlinellu dull cynhwysfawr o weithio gyda disgyblion o bob oedran i fynd i'r afael â'r broblem ddifrifol hon. Mae eisoes yn cael cryn effaith.

Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2004 Disability Discrimination Act 2004

Q14 Janet Davies: Will the Minister make a statement on the implementation of the Disability Discrimination Act 2004 in educational institutions? OAQ0931(ELL)

C14 Janet Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am roi Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2004 ar waith mewn sefydliadau addysg? OAQ0931(ELL)

Jane Davidson: Guidance has been issued to local education authorities, and higher and further education institutions. All sectors are actively addressing accessibility issues and I have provided significant additional funding to support them in meeting this duty.

Jane Davidson: Rhoddwyd canllawiau i awdurdodau addysg lleol, a sefydliadau addysg uwch a phellach. Mae pob sector yn cymryd camau i fynd i'r afael â phroblemau mynediad ac yr wyf wedi rhoi swm sylweddol o arian iddynt i'w helpu i gyflawni'r ddyletswydd hon.

Gwersi Nofio Swimming Lessons

Q15 William Graham: Will the Minister make a statement on the provision of swimming lessons for primary school children? OAQ0910(ELL)

C15 William Graham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwersi nofio i blant ysgolion cynradd? OAQ0910(ELL)

Jane Davidson: In terms of the school curriculum, swimming is an optional element of physical education at key stage 1, and a compulsory area of activity at key stage 2. Further provision across Wales is ensured through the Welsh Assembly Government's free swimming initiative.

Jane Davidson: O ran cwricwlwm yr ysgol, mae nofio'n elfen ddewisol o addysg gorfforol yng nghyfnod allweddol 1, ac yn faes gorfodol yng nghyfnod allweddol 2. Mae menter nofio am ddim Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau darpariaeth ychwanegol ar hyd a lled Cymru.